Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynllun Ffioedd 2026-27

Ionawr 2026

Cynllun ffioedd a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 24 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yw hwn.

Gosodir y cynllun ffioedd hwn gerbron y Senedd o dan adran 24(4)(c) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Swyddfa Archwilio Cymru 2026



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Dr Ian Rees**
Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru

# Cynnwys

Cyflwyniad 4

Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd 7

Codi ffioedd 10

## Atodiadau

1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24 12

2 Rhestr o ddeddfiadau y gall Swyddfa Archwilio Cymru ac y mae’n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd yn unol â nhw 14

3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2026 16

# Cyflwyniad

1 Paratowyd y Cynllun Ffioedd hwn o dan adran 24 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) (**Atodiad 1**). Y Cynllun Ffioedd, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Senedd, sy'n darparu'r sail yr ydym yn codi ffioedd arni.

2 Mae'r Cynllun Ffioedd hwn yn nodi:

- y deddfiadau y byddwn yn codi ffioedd archwilio yn unol â nhw (**Atodiad 2**); a'r
- trefniadau ar gyfer pennu'r ffioedd hynny, sef naill ai:
  - graddfeydd ffioedd sy'n nodi amrediadau ffioedd ar gyfer meysydd penodol o waith archwilio mewn llywodraeth leol; neu
  - gyfraddau ffioedd ar gyfer gwaith nad yw wedi'i gwmpasu gan raddfeydd ffioedd.

3 Yn fras, mae 64% o'n gwariant yn cael ei ariannu drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. Darperir y 36% sy'n weddill o Gronfa Gyfunol Cymru drwy'r cynnig cyllideb sy'n cael ei basio gan y Senedd.

4 Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol **na chaiff y ffioedd a godir gennym fod yn uwch** na chost lawn cyflawni yn y corff hwnnw y swyddogaeth y mae'r ffi yn gysylltiedig â hi. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar amcangyfrif o'n sylfaen gostau, y cymysgedd o sgiliau yr amcangyfrifir y bydd ei angen ar gyfer gwaith archwilio a nifer y diwrnodau yr amcangyfrifir y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Nid ydym ac ni chawn wneud elw o'n gwaith. Pennir cyfraddau ein ffioedd ar lefel sy'n golygu ein bod yn adennill y gost lawn a amcangyfrifwyd ond dim mwy na hynny.

5 Ceir tensiwn rhwng darparu ffi ymlaen llaw i gyrff archwilio am waith a fydd yn cael ei wneud ar archwiliadau penodol a bod â threfn ddigon hyblyg sy'n cydnabod bod amrywiadau yn anochel. Rydym yn pennu ein ffioedd archwilio yn seiliedig ar amcangyfrif o'n gwariant, y cymysgedd o sgiliau yr amcangyfrifir y bydd ei angen a nifer y diwrnodau yr amcangyfrifir y bydd eu hangen i gwblhau'r gwaith. Lle mae'r gwaith sy'n ofynnol yn sylweddol fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol, oherwydd cymhlethdodau a gafwyd yn ystod yr archwiliad, gallwn godi ffi uwch, fel y caniateir gan ddeddfwriaeth.

6 Fel y nodwyd yn ein hymgynghoriad ar ffioedd arfaethedig ym mis Medi 2025, byddwch yn cofio, ar gyfer 2025-26, ein bod wedi nodi arbedion effeithlonrwydd a ganiataodd i ni gynyddu ein cyfraddau ffioedd cyfartalog o lai nag 1.7% er ein bod yn wynebu pwysau chwyddiant ar ein sail gostau, a waethygwyd gan gystadleuaeth ffyrnig am archwilwyr sector cyhoeddus, a gofynion ansawdd sy'n cynyddu'n barhaus. Ar yr un pryd, caniataodd ein hadolygiad o'r dull archwilio ISA315 newydd i ni **leihau** ein ffioedd gwirioneddol am archwilio cyfrifon o gyfartaledd o 3%.

7 Ar gyfer 2026-27, mae'n rhaid i ni gynyddu ein cyfraddau ffioedd o gyfartaledd o 5.3% i ymateb i'r un cyfuniad hwnnw o bwysau chwyddiant ar ein sail gostau a'n disgwyliadau ansawdd. I awdurdod unedol mawr â throsiant o £1 biliwn, bydd hyn yn cyfateb i gynnydd arian parod i'n ffi archwilio nodweddiadol o £14,000 yn unig. I gorff llai, fel Awdurdod Tân ac Achub, mae'r cynnydd yn cyfateb i tua £2,000.

8 Gyda'i gilydd, bydd ein cyfraddau ffioedd dros y ddwy flwyddyn ariannol – 2025-26 a 2026-27 – wedi cynyddu 7.1%. Mae'r arbedion effeithlonrwydd yr ydym wedi eu hysgogi yn ein gwaith yn golygu, er gwaethaf y cynnydd hwn i gyfraddau ffioedd, y bydd y ffi gyfartalog am ein gwaith archwilio cyfrifon wedi cynyddu **rhyw fymryn dros 2%** dros y cyfnod hwnnw o ddwy flynedd.

9 Mae adroddiad diweddar gan yr Audit Reform Lab yn trafod methiant archwilio cyhoeddus yn Lloegr a'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â hyn. Mae'r adroddiad yn dangos bod archwilio cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa lawer gwell a mwy cost-effeithiol.

10 Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau sy'n wynebu'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio ac wedi herio ein model gweithredu i sicrhau bod ein ffioedd archwilio yn parhau i gynnig gwerth am arian, tra'n parhau i fuddsoddi mewn ansawdd archwilio, sy'n ganolog i'r holl benderfyniadau yr ydym yn eu gwneud.

11 Mae'r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol sy'n cael ei archwilio yn ei thalu yn dibynnu nid yn unig ar ein cyfraddau ffioedd ond ar gyfanswm y gwaith a'r cymysgedd sgiliau sy'n ofynnol.

12 Fe aethom y tu hwnt i'r gofynion ymgynghori ar ffioedd statudol ac ym mis Medi 2025, fe wnaethom ymgynghori â'r holl gyrff a archwilir a rhanddeiliaid eraill ar gyfraddau a graddfeydd arfaethedig ein ffioedd ar gyfer 2026-27.

13 Cawsom 17 o ymatebion ac roedd 10 ohonynt yn mynegi pryderon am y cynnydd uwch na chwyddiant i gyfraddau ffioedd ar gyfer 2026-27. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ysgrifennu at bawb a ymatebodd i esbonio'r rhesymau am y cynnydd hwn a'r hyn yr ydym yn ei wneud i liniaru'r effaith ar ffioedd archwilio.

14 Mae'r Bwrdd wedi myfyrio ar yr ymatebion hyn ac wedi ymateb drwy nodi arbedion effeithlonrwydd pellach, i leihau'r cynnydd arfaethedig i gyfartaledd o 5.3%.

15 Mae'n rhaid ystyried ein ffioedd yng Nghymru yn erbyn y sefyllfa yn Lloegr hefyd, lle cyhoeddodd y PSAA[1] gynnydd o 151% i ffioedd am archwilio cyfrifon 2023-24 wedi'i ddilyn gan gynnydd o 9.5% ar gyfer 2024-25 a chynnydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar o 4% ar gyfer 2025-26.

1 Public Sector Audit Appointments.

# Cyfraddau ffioedd a graddfeydd ffioedd

## Cyfraddau ffioedd 2026-27

1 Cyflwynir cyfraddau arfaethedig ein ffioedd ar gyfer 2026-27 yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: cyfraddau ffioedd arfaethedig 2026-27**

| Gradd | Cyfradd (£ yr awr) 2026-27 | Cyfradd (£ yr awr) 2025-26 |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Archwilio | 187 | 183 |
| Rheolwr Archwilio | 144 | 141 |
| Arweinydd Archwilio | 118 | 115 |
| Uwch Archwilydd | 95 | 91 |
| Archwilydd | 72 | 66 |
| Hyfforddai graddedig | 63 | 59 |
| Prentis | 49 | 47 |

2 Rydym yn bwriadu parhau i ddarparu mynediad am ddim at y Fenter Twyll Genedlaethol.

## Graddfeydd Ffioedd Llywodraeth Leol 2026-27

3 Ffordd o reoleiddio cost archwilio cyhoeddus yw graddfeydd ffioedd, trwy bennu terfynau a thrwy adolygu ffioedd yn erbyn y terfynau hynny. Mae graddfeydd ffioedd hefyd yn darparu fframwaith i archwilwyr asesu faint o waith archwilio blynyddol sy'n angenrheidiol a'r ffi i'w chodi am y gwaith hwnnw mewn corff penodol a archwilir.

4 Darperir graddfeydd ein ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon ariannol 2025-26, ynghyd â gwaith archwilio perfformiad wedi'i ariannu gan ffioedd a fydd yn cael ei wneud yn 2026-27, yn **Atodiad 3** o ran awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu, prif gwnstabliaid, cynghorau tref a chymuned, a chronfeydd pensiwn llywodraeth leol.

5 Darperir graddfa ffioedd ar wahân o ran y Fenter Twyll Genedlaethol.

6 Mae gwaith archwilio perfformiad yn cynnwys archwiliadau datblygu cynaliadwy, archwiliadau gwybodaeth gwella, asesiadau gwella ac arolygiadau arbennig. Nid yw'r holl swyddogaethau hyn yn berthnasol i bob math o gorff a archwilir.

7 Mae ffioedd archwilio amcangyfrifedig cyrff a archwilir nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y gofyniad statudol am raddfa ffioedd yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd ag ar gyfer y rhai sydd wedi'u cwmpasu – hynny yw, trwy gymhwyso'r cyfraddau ffioedd a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn i'r cymysgedd tîm a'r oriau o fewnbwn yr amcangyfrifir y bydd eu hangen ar gyfer yr archwiliad.

8 Mae archwilwyr yn gwneud gwaith ardystio grantiau ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn ddibynnol ar nifer y cynlluniau sy'n destun archwiliad a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Cyfrifir taliadau ar gyfer y gwaith hwn gan ddefnyddio'r cyfraddau ffioedd a chan adlewyrchu maint, cymhlethdod neu unrhyw broblemau penodol o ran y grant dan sylw.

9 Mae'r cyfraddau ffioedd yn berthnasol i'r holl waith archwilio ac eithrio i'r graddau y mae'r graddfeydd ffioedd, lle'n berthnasol, yn rheoli'r swm y dylid ei godi (neu yn achos gwaith a wneir o dan gytundebau a wnaed cyn 1 Ebrill 2014, mae'r cyfraddau ar delerau fel y cytunwyd). Os yw'n ymddangos wedyn bod y gwaith y bydd angen ei wneud mewn archwiliad penodol yn sylweddol wahanol i'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, gallwn godi ffi sy'n wahanol i'r un a nodwyd yn wreiddiol.

10 Yn achos darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol eraill, bydd ffioedd yn cael eu codi yn unol â’r cytundeb perthnasol, ar yr amod bod symiau o’r fath yn cael eu capio ar gost lawn darparu’r gwasanaeth.

11 I gyflawni cyfrifoldebau statudol, mae weithiau’n angenrheidiol i archwilwyr wneud gwaith sy’n mynd y tu hwnt i’w dyletswyddau cyffredinol. Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwilio eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach o ran cwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr, ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd taliadau am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sy’n ofynnol ac fe’u cyfrifir trwy gymhwyso’r cyfraddau ffioedd a gyhoeddir yn y Cynllun Ffioedd hwn i’r cymysgedd tîm a’r oriau o fewnbwn y mae eu hangen ar gyfer y gwaith.

12 Lle mae angen cymorth arbenigol neu gyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall, byddwn yn codi ar gyrff archwilio am hyn yn ychwanegol at gost ein staff archwilio.

# Codi ffioedd

13 Bydd Cyfarwyddwr Ymgysylltu pob corff yn esbonio’r cymysgedd sgiliau sydd ei angen ar gyfer yr archwiliad a’r ffactorau sy’n dylanwadu ar gyfanswm y ffi. Caiff trefniadau codi ffioedd eu cytuno gyda’r cyrff sy’n cael eu harchwilio a gallant gwmpasu codi ffioedd untro, cyfnodol, rheolaidd neu flynyddol, fel sy’n briodol o dan yr amgylchiadau.

14 Disgwylir i gyrff a archwilir dalu ein hanfonebau o fewn eu targed perfformiad ar gyfer taliadau i gredydwyr, sef deg diwrnod fel arfer. Gallwn godi am y costau gweinyddol a ysgwyddir wrth fynd ar drywydd taliadau hwyr.

15 Os yw cyrff a archwilir ei angen, dylai archeb brynu ar gyfer y ffi archwilio y cytunwyd arni gael ei chodi cyn i anfonebau gael eu hanfon.

16 Ar ôl cwblhau aseiniadau archwilio, byddwn yn asesu’r costau gwirioneddol a ysgwyddwyd wrth gyflawni’r aseiniad o’u cymharu â’r ffi a godwyd. Byddwn yn ad-dalu unrhyw ffi ormodol a oedd yn fwy na’r gost ac i’r gwrthwyneb, gallwn godi costau ychwanegol lle nad yw’r ffi yn ddigon. Byddwn yn prosesu ad-daliadau a thaliadau ychwanegol mewn modd sy’n ceisio sicrhau bod costau gweinyddol mor isel â phosibl, fel trwy wrthbwyso yn erbyn ffioedd yn y dyfodol neu ffioedd am agweddau eraill ar weithgarwch archwilio.

# Atodiadau

1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

2 Rhestr o ddeddfiadau y gall Swyddfa Archwilio Cymru ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd yn unol â nhw

3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2026

# 1 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 – testun llawn adran 24

(1) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(2) Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

(a) rhestr o'r deddfiadau y caiff SAC godi ffi oddi tanynt;

(b) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, y raddfa honno neu'r graddfeydd hynny;

(c) pan fo'r deddfiadau hynny yn gwneud darpariaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi swm i'w godi, y swm hwnnw;

(d) pan nad oes darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd, na rhagnodi swm, y modd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrifo'r ffi a godir.

(3) Caiff y cynllun wneud y canlynol ymysg pethau eraill:

(a) cynnwys darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau ar achosion gwahanol, a

(b) darparu ar gyfer yr adegau a'r modd y bydd taliadau yn cael eu gwneud.

(4) O ran y cynllun:

(a) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei adolygu o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr;

(b) caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei ddiwygio neu ei ail-wneud ar unrhyw adeg; ac

(c) rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ei osod (a gosod unrhyw ddiwygiad iddo) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol[2].

2 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cyfeirio at 'Y Cynulliad Cenedlaethol' er bod yr enw wedi newid i 'Y Senedd'.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd o dan:

(a) adran 64F o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ffioedd am baru data), neu

(b) adran 27A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi graddfa ffioedd), i gael effaith yn lle graddfa neu raddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddiwygio'r cynllun i gynnwys y raddfa neu'r graddfeydd ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru yn lle'r rhai a ragnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

(6) Nid oes rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol os mai diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5) yw'r unig ddiwygiad i gynllun.

(7) Bydd y cynllun yn cael effaith pan fydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol neu, yn achos diwygiad a wneir yn unol ag isadran (5), unwaith y bydd wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad.

(8) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi'r cynllun (ac unrhyw ddiwygiad iddo) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddo gael effaith.

# 2 Rhestr o ddeddfiadau y gall Swyddfa Archwilio Cymru ac y mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd yn unol â nhw

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| **Gall Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am y gweithgareddau canlynol** | |
| Archwilio cyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio cyfrifon llywodraeth leol). | Adran 23(2) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau gwerth am arian a gynhelir trwy gytundeb (ac eithrio sefydliadau addysgol a chyrff llywodraeth leol–gweler isod). | Adran 23(3)(a), (b) ac (c) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliad, ardystiad neu adroddiad o dan adran 31 Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 o ran Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru. | Adran 23 (3)(ba) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliad o dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy). | Adran 23(3)(ca) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Unrhyw un o swyddogaethau awdurdod perthnasol a gyflawnir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol ac a gyflawnir trwy gytundeb, ac unrhyw wasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol sydd i gael eu darparu gan Swyddfa Archwilio Cymru neu'r Archwilydd Cyffredinol trwy drefniant o dan adran 19 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. | Adran 23(3)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |

| Natur y gwaith | Deddfiadau |
|---|---|
| Archwiliad eithriadol o gyfrifon corff llywodraeth leol. | Adran 37(8) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Cyngor a chymorth a roddir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. | Adran 145D(2) Deddf Llywodraeth Cymru 1998<br>Dim ond yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd o dan a24 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 y gellir llunio telerau talu |
| **Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfeydd ffioedd ar gyfer y gweithgareddau canlynol** | |
| Archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(a) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Cymorth i Brif Arolygydd EF dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | Adran 41A(6) Deddf Addysg 1997 |
| Astudiaethau sy’n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (cymdeithasau tai) | Adran 145C(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 |
| Astudiaethau ar gais cyrff llywodraeth leol | Adran 20(A1)(b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Astudiaethau o weinyddu budd-daliadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol | Adran 45(7) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 |
| Gwasanaethau ardystio grantiau | Adran 23(4)(a) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Astudiaethau ar gais cyrff addysgol | Adran 23(4)(b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 |
| Archwiliadau gwybodaeth gwella, asesiadau gwella ac arolygiadau arbennig o Awdurdodau Gwella Cymru | Adran 27 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| Arolygiadau arbennig o brif gynghorau | Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

# 3 Graddfeydd ffioedd o 1 Ebrill 2026

## Graddfeydd ffioedd am waith a wneir o dan y Fenter Twyll Genedlaethol (paru data)

17 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'r Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio ei bwerau paru data statudol o dan Ran 3A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

18 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i ddod o hyd i hawliadau a thrafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn arf hynod effeithiol i ganfod ac atal twyll a gordaliadau.

19 Nododd ein hadroddiad eilflwydd diweddar ganlyniadau gwerth £7.1 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynyddu canlyniadau cronnol i £56.5 miliwn ers 1996.

20 Ers mis Ebrill 2015, mae'r Senedd wedi talu costau rhedeg y Fenter Twyll Genedlaethol trwy daliad o Gronfa Gyfunol Cymru. Bwriedir i hyn annog sefydliadau i gymryd rhan yn wirfoddol ac i symleiddio trefniadau ar gyfer cyrff y mae'n orfodol iddynt gymryd rhan. Fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth, dangosir y ffioedd ar gyfer cyrff y mae'n orfodol iddynt gymryd rhan yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: Ffioedd y Fenter Twyll Genedlaethol**

| | Ffi 2026-27 |
|---|---|
| Awdurdodau unedol; comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid; awdurdodau tân ac achub; ymddiriedolaethau'r GIG; byrddau iechyd lleol | Dim |
| Cyfranogwyr gwirfoddol | Dim |
| Gall yr holl gyfranogwyr gael mynediad at Wiriwr Ceisiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol hefyd (App Check). | Dim |

# Graddfeydd ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol

## Awdurdodau unedol

### Arddangosyn 3: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26

| | Amrediad ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| 100 | 146 | 172 | 198 | 166 |
| 200 | 176 | 207 | 238 | 200 |
| 300 | 196 | 230 | 265 | 222 |
| 400 | 211 | 249 | 286 | 240 |
| 500 | 224 | 264 | 303 | 255 |
| 600 | 235 | 277 | 319 | 267 |
| 700 | 245 | 289 | 332 | 279 |
| 800 | 254 | 299 | 344 | 289 |
| 900 | 262 | 309 | 355 | 298 |
| 1,000 | 270 | 317 | 365 | 306 |
| 1,100 | 277 | 325 | 374 | 315 |
| 1,200 | 283 | 333 | 383 | 322 |

**Arddangosyn 4: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2026-27**

| | Amrediad ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod unedol | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 114 | 121 | 137 | 118 |

## Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol

**Arddangosyn 5: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26**

| | Amrediad ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob cronfa bensiwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 44 | 58 | 61 | 56 |

## Awdurdodau Tân ac Achub

**Arddangosyn 6: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26**

| | Amrediad ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| 20 | 43 | 50 | 58 | 49 |
| 40 | 52 | 61 | 70 | 59 |
| 60 | 57 | 68 | 78 | 65 |
| 80 | 62 | 73 | 84 | 70 |
| 100 | 66 | 77 | 89 | 75 |

**Arddangosyn 7: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2026-27**

| | Amrediad ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod tân ac achub | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 20 | 21 | 24 | 18 |

## Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

**Arddangosyn 8: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26**

| | Amrediad ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| 2 | 27 | 31 | 36 | 30 |
| 4 | 32 | 38 | 43 | 36 |
| 6 | 36 | 42 | 48 | 40 |
| 8 | 38 | 45 | 52 | 44 |
| 10 | 41 | 48 | 55 | 46 |

**Arddangosyn 9: graddfa ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2026-27**

| | Amrediad ffioedd | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Pob awdurdod parc cenedlaethol | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| | 22 | 24 | 27 | 23 |

## Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

21 Mae archwilwyr yn cynnal archwiliadau o ddau gorff statudol yn ardal pob heddlu – y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid. Mater i archwilwyr benderfynu arno fydd sut i rannu cyfanswm y ffi rhwng y ddau gorff, yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu a'r trefniadau gweithredu a roddwyd ar waith gan y naill gorff a'r llall.

**Arddangosyn 10: graddfa ffioedd ar gyfer archwilio cyfrifon 2025-26**

| | Amrediad ffioedd cyfunol ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid | | | Y Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant Gros Cyfunol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid £ miliwn | Isafswm £'000 | Canolrif £'000 | Uchafswm £'000 | Canolrif £'000 |
| 50 | 74 | 85 | 96 | 82 |
| 100 | 87 | 100 | 114 | 97 |
| 150 | 96 | 111 | 126 | 107 |
| 200 | 103 | 119 | 136 | 115 |
| 250 | 108 | 126 | 144 | 122 |
| 300 | 113 | 132 | 150 | 127 |
| 350 | 118 | 137 | 156 | 132 |

## Cynghorau tref a chymuned ag incwm neu wariant blynyddol o dan £2.5 miliwn

22 Mae cynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn ddarostyngedig i drefn archwilio sicrwydd cyfyngedig. Gwneir y trefniadau archwilio i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Nid yw'r archwiliad yn cael ei gomisiynu gan gynghorau unigol.

23 Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol bapur yn nodi sut y bydd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal ar gylch tair blynedd fel y nodir yn **Arddangosyn 11**.

**Arddangosyn 11: cylch archwilio tair blynedd ar gyfer cynghorau tref a chymuned**

| | Grŵp A | Grŵp B | Grŵp C |
|---|---|---|---|
| Archwiliadau 2024-25 | Archwiliad llawn | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad sylfaenol |
| Archwiliadau 2025-26 | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad llawn | Archwiliad sylfaenol |
| Archwiliadau 2026-27 | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad sylfaenol | Archwiliad llawn |

24 Mae taliadau am y gwaith hwn yn seiliedig ar yr amser a gymerir i gwblhau'r archwiliad yn ôl cyfraddau ein ffioedd fel y nodir yn **Arddangosyn 1** ar dudalen 7.

25 Mae **Arddangosyn 12** yn darparu ystod o ffioedd ar gyfer cynghorau o wahanol feintiau wedi'u mesur yn ôl incwm a gwariant. Mae'r amrediadau hyn sydd wedi'u diweddaru yn ystyried profiad Archwilio Cymru o ffioedd yn deillio o archwiliadau 2021-22 i 2024-25.

**Arddangosyn 12: amcangyfrif o daliadau a godir am amser ar gyfer archwiliadau o gyfrifon 2025-26 mewn cynghorau tref a chymuned**

| | Band 1 (<£10k) | Band 2 (<£25k) | Band 3 (<£50k) | Band 4 (<£100k) | Band 5 (<£500k) | Band 6 (>£500k) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwiliad llawn | £400-£780 | £420-£820 | £500-£900 | £600-£1,100 | £900-£1,400 | £1,000-£3,600 |
| Archwiliad trafodiadau | £200-£260 | £200-£260 | £200-£260 | £220-£300 | £220-£300 | £240-£320 |

## Cyfraddau ffioedd am waith arall mewn llywodraeth leol

26 Ac eithrio'r mathau hynny o gyrff y rhagnodwyd graddfeydd ffioedd ar eu cyfer fel y dangosir uchod, ceir nifer fach o fathau eraill o gyrff llywodraeth leol lle mae ein penderfyniad rhagnodi'r raddfa ffioedd yn fater o drosi'r gofynion o ran adnoddau yn ffioedd sydd wedi'u seilio'n uniongyrchol ar gostau cyflawni'r gwaith neu drwy weithredu'r cyfraddau ffioedd fel y nodir yn **Arddangosyn 1**. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau o Gydbwyllgorau Corfforedig. Mae'n dal i fod yn wir ar gyfer archwiliadau o'r cyrff hyn ein bod yn defnyddio dull cwbl gynhwysfawr o gynllunio archwiliadau.

27 Ar gyfer pob math o gorff llywodraeth leol, mae weithiau'n angenrheidiol i'r Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol, wneud gwaith sy'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau cyffredinol (y rhai a nodir yn adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac yn adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Gall gwaith ychwanegol gynnwys adroddiadau er budd y cyhoedd, archwilio eithriadol, arolygiadau arbennig a gwaith pellach o ran herio gan etholwyr ac atal gwariant anghyfreithlon. Bydd y ffioedd a godir am y math hwn o waith yn adlewyrchu natur y gwaith sy'n ofynnol.

28 Gall archwilwyr hefyd wneud gwaith ardystio grantiau mewn cyrff llywodraeth leol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae faint o waith ardystio grantiau a wneir mewn unrhyw flwyddyn yn ddibynnol ar nifer y cynlluniau sy'n destun archwiliad a nifer y cyrff a archwilir sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau hynny. Codir tâl am y gwaith hwn fesul awr ac mae'n adlewyrchu maint, cymhlethdod a/neu unrhyw broblemau o ran y grant dan sylw fel y nodir yn **Arddangosyn 13**.

**Arddangosyn 13: amcangyfrifon o’r cyfrannau perthynol o raddau staff archwilio i’w defnyddio ar gyfer gwahanol fathau o waith ardystio grantiau**

| Gradd staff | Cymysgedd staff ar gyfer grantiau cymhleth % | Cymysgedd staff ar gyfer yr holl grantiau eraill % |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr ymgysylltu | 1 i 2 | 0 i 1 |
| Rheolwr Archwilio | 4 i 6 | 1 i 2 |
| Arweinydd Archwilio | 18 i 21 | 12 i 16 |
| Archwilydd/hyfforddai graddedig/ prentis | 71 i 77 | 81 i 87 |

Mae grantiau cymhleth yn cynnwys:

- BEN01 Cynllun budd-daliadau tai a’r dreth gyngor
- LA01 Ffurflen ardrethi annomestig cenedlaethol
- PEN05 Ffurflen pensiynau athrawon

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.